**PWYLLGOR LLYWODRAETH LEOL A THAI**

**CYMHORTHDAL CYFRIF REFENIW TAI (HRAS) 2001-02**

**Diben**

1. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y prif benderfyniadau i'w gwneud mewn perthynas â Chymhorthdal Cyfrif Refeniw Tai (HRAS) ar gyfer tai cyngor yn 2001-02.

**Argymhelliad**

2. Gwahoddir y Pwyllgor i nodi'r argymhelliad allweddol i ymgynghori ag awdurdodau lleol ar godiad rhent o 4.5% ar gyfer 2001-02 i ddibenion cymhorthdal HRA.

**Amseru**

3. Mae angen ymgynghori'n fuan ar weithrediad HRAS yn 2001-02 er mwyn i awdurdodau lleol wneud penderfyniadau cyllideb a rhent o fewn y terfynau amser gofynnol.

**Cefndir**

4. Mae'r Cyfrif Refeniw Tai (HRA) yn cofnodi incwm a gwariant ar eitemau fel rhent, rheoli a chynnal a chadw, taliadau benthyciadau etc mewn perthynas â stoc tai'r cyngor. Mae awdurdodau'n gweithredu ar sail gwirioneddol tra bo'r Cynulliad yn defnyddio cyfrif "tybiannol" i ddibenion cyfrif cymhorthdal. Yn **Atodiad 1** ceir enghraifft o gyfrif "tybiannol" wedi'i gymharu â chyfrif "gwirioneddol".

5. Nod y cymhorthdal yw delio ag unrhyw ddiffyg rhwng incwm a gwariant ar HRA "tybiannol" awdurdod. Wrth amcangyfrif swm blynyddol y cymhorthdal mae'n rhai gwneud rhai rhagdybiaethau. Y rhagdybiaethau allweddol yw canllawiau lefelau rhent a lwfansau rheoli a chynnal a chadw. Mewn perthynas â lefelau rhent, mae'r Trysorlys yn cynghori y dylid seilio'r rhagdybiaeth ar godiad rhent o 4.5% ar gyfer y flwyddyn ariannol nesaf. Seilir rhagdybiaeth rheoli a chynnal a chadw ar fodel ystadegol cymhleth y cytunir arno'n flynyddol â'r Trysorlys.

6. Mae'n rhaid penderfynu a ddylid rhoi blaenoriaeth i fanteisio'n llawn ar yr adnoddau sydd ar gael i awdurdodau lleol ar gyfer gwariant rheoli a chynnal a chadw, yn hytrach na gostwng lefel codiadau rhent. Bwriedir cadw lefel codiadau rhent yn 4.5%, yn unol â'r hyn a nodwyd gan y Trysorlys, er mwyn caniatáu i awdurdodau allu gwario'r swm mwyaf posib ar waith atgyweirio a gwella'r stoc tai. Gwneir y penderfyniad hwn gan wybod am gyflwr gwael stoc tai awdurdodau lleol Cymru a'r buddsoddiad sylweddol sydd ei angen i'w wella i safonau modern derbyniol.

7. Disgwylir y bydd rhent yn codi tua 4.5% y flwyddyn nesaf. Serch hynny, gall y Cynulliad bennu lefel rhent fel canllaw sydd yn uwch neu'n is na 4.5%. Os yw'r rhent yn cael ei godi o lai na 4.5%, bydd gan awdurdodau lai o arian ar gyfer rheoli a chynnal a chadw gan fod gofyn i'r Trysorlys gytuno ar y gyllideb gymhorthdal gyffredinol, ac ni ellir mynd y tu hwnt i hynny. Os yw'r rhent yn cael ei godi o fwy na 4.5%, bydd gofyn i'r Cynulliad ddod o hyd i'r costau ychwanegol ar gyfer ad-daliadau rhent o'i arian ei hun.

**Cydymffurfio**

8. Mae'r pwerau perthnasol i bennu rheolau cyfrif hawl cymhorthdal HRA a'r fframwaith ar gyfer gwneud dyfarniadau a chyfeiriadau wedi'u trosglwyddo i'r Cynulliad, ac fe'u nodir yn Neddf Llywodraeth Leol a Thai 1989:

- mae Adran 80 yn delio â chyfrif cymhorthdal HRA
- mae Adran 87 yn delio â fframwaith gwneud dyfarniadau a chyfeiriadau

9. Mae'r pwerau hyn wedi'u dirprwyo i Weinidog y Cynulliad. Nid oes unrhyw faterion priodoldeb na chywirdeb. Mae Swyddog Cydymffurfio'r Cynulliad yn fodlon.

**Goblygiadau Ariannol**

10. Mae HRAS yn Wariant a Reolir yn Flynyddol. Ni all unrhyw adnoddau heb eu gwario gael eu defnyddio i godi Terfyn Gwariant Adrannol y Cynulliad. Bydd rhenti canllaw a lwfansau rheoli a chynnal a chadw yn cael eu gosod er mwyn sicrhau bod gwariant o fewn y terfynau cyffredinol y cytunwyd arnynt â'r Trysorlys. Ymgynghorwyd â'r Is-adran Cynllunio Ariannol a Chyllid Llywodraeth Leol yngln â'r cyflwyniad hwn, a nodwyd nad oes unrhyw rwymedigaethau ariannol ychwanegol i'r Cynulliad.

**Is-adran Perfformiad Tai a Chyllid Hydref 2000**

**Atodiad 1**

| **HRA: CYMHARU "TYBIANNOL" A GWIRIONEDDOL** | | | **CYFRIF** |
|---|---|---|---|
| Enghraifft: | | | |
| | | ALl | Cynulliad |
| | | Gwirioneddol | Tybiannol |
| | | £m | £m |
| **Incwm:** | | | |
| Rhenti | | 8.3 | 8.4 |
| Taliadau Gwasanaeth | | 0.4 | 0 |
| Cyfanswm Incwm: | (A) | **8.7** | **8.4** |
| | | | |
| **Gwariant:** | | | |
| Rheoli a Chynnal a Chadw | | 3.8 | 4.2 |
| Taliadau Gwasanaeth | | 0.4 | |
| Taliadau Benthyciad | | 1.8 | 1.7 |
| Cyfanswm Gwariant | (B) | **6.0** | **5.9** |
| | | | |
| Gweddill cyn ad-daliadau rhent (A - B) | | 2.7 | 2.5 |
| Ad-daliadau rhent (Budd-dâl Tai) | | -4.6 | -4.6 |
| Is-gyfanswm | | **-1.9** | **-2.1** |

| | | |
|---|---|---|
| Hawl HRAS | 2.1 | 2.1 |
| Gweddill cyffredinol | 0.2 | 0 |

Nodyn: Mae'r HRA tybiannol yn '0' ar bob achlysur,
gan mai'r hawl HRAS sy'n rhoi'r cydbwysedd